## Yr Adran Cymunedau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Ôl-ofal o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

## Ffeithlen 30

**(Mehefin 2025)**

---

Mae gan rai pobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 hawl i ofal a chymorth am ddim ar ôl iddynt adael yr ysbyty. Mae'r hawl hon i ofal am ddim o dan adran benodol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a elwir yn Adran 117.

**Pwy sydd â hawl i ofal am ddim o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl?**

Ni fydd gan bawb sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 hawl i ofal a chymorth am ddim ar ôl iddynt adael. Dim ond unigolion sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gorchymyn ysbyty o dan Adran 37, neu sy'n cael eu trosglwyddo o'r carchar o dan Adran 47 neu 48, neu gyfarwyddyd ysbyty o dan Adran 45A fydd â hawl i ofal am ddim o dan Adran 117.

**Pa fath o ofal y gall y person ei gael o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl?**

Rhaid i'r gofal y gall rhywun ei gael o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl fod wedi codi neu fod yn gysylltiedig ag anhwylder meddwl y person a rhaid iddo atal dirywiad yn anhwylder meddwl y person. Felly, mae'n bosibl y gallai rhywfaint o ofal y person fod am ddim, ond gall fod tâl am rywfaint o'r gofal nad yw'n gysylltiedig ag anhwylder meddwl y person, e.e. gofal sy'n gysylltiedig ag anhwylder corfforol.

Os yw'r gofal yn gysylltiedig ag anhwylder meddwl y person ac yn gallu atal dirywiad yng nghyflwr meddyliol y person, gall gofal a chymorth o dan Adran 117 gynnwys gofal iechyd, gofal cymdeithasol, llety â chymorth a gwasanaethau i ddiwallu anghenion ysbrydol a diwylliannol ehangach y person.

Gall y cyngor hefyd wneud taliadau uniongyrchol am ofal o dan Adran 117.

**Pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r gofal o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl?**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gyfrifol am ddarparu'r gofal angenrheidiol o dan Adran 117 i'r bobl hynny a oedd fel arfer yn byw yn Sir Gaerfyrddin pan oeddent yn cael eu cadw yn yr ysbyty.

**Pa mor hir mae'r hawl i ofal am ddim o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn para?**

Mae cyd-gyfrifoldeb y cyngor a'r bwrdd iechyd i ddarparu gofal am ddim o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn parhau nes bod y cyngor a'r bwrdd iechyd yn penderfynu nad oes gan y person yr anghenion hynny mwyach.

**Rhagor o Wybodaeth**

Mae MIND yn llunio canllawiau ar Adran 117 sydd i'w gweld yma: Ôl-ofal o dan Adran 117 - Mind

Yn ogystal, mae Pennod 33 o God Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/deddf-iechyd-meddwl-1983-cod-ymarfer-deddf-iechyd-meddwl-1983-cymru--diwygiedig-2016.pdf (llyw.cymru)

**Mae'r ffeithlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**
**Os hoffech chi gael y ffeithlen hon mewn unrhyw fformat arall, ffoniwch 01267 228703 neu e-bostiwch: gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**